10 Hydref 2018

Annwyl Gwydweithiwr

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 - Cynigion amlinellol**

Ar 2 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynigion amlinellol ar gyfer ei Chyllideb ddrafft 2019-20. Mae disgwyl y bydd y Gyllideb ddrafft fanwl yn cael ei chyhoeddi ar 24 Hydref.

Fel rhan o broses graffu ar y Gyllideb ddrafft, bydd y Pwyllgor eto eleni yn cynnal sesiynau craffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig a Gweinidog yr Amgylchedd. Bydd y Pwyllgor hefyd yn craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar agweddau ar ei bortffolio sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod hi'n bwysig i'r gwaith craffu gael ei lywio gan farn rhanddeiliaid ac mae'n llunio ymgynghoriad byr at y diben hwnnw. Yn benodol, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech drafod y cwestiynau canlynol -

- Beth yw eich barn ar y Gyllideb drafft o ran yr hyn y mae'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor.
- Beth yw eich barn ar yr arian a ddyrennir i ddatgarboneiddio yn sgil ei gynnwys fel chweched maes blaenoriaeth allweddol ar gyfer gwaith trawslywodraethol yn Ffyniant i Bawb?
- A oes gennych unrhyw bryderon yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar i gael unrhyw sylwadau gennych erbyn **26 Hydref,** naill ar y cynigion amlinellol neu'r gyllideb fanwl. Rydym yn cydnabod y gallai fod yn anodd rhoi sylwadau ar y gyllideb fanwl o ystyried yr amser sydd ar gael.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**